# HYSBYSIAD O GYNIGION

## Cyngor Sir Ddinbych (Rhuthun)

## Cyngor Sir Ddinbych (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) 2021 Amrywiad Ffyrdd Amrywiol Rhuthun 2026

**RHODDIR RHYBUDD DRWY HYN** bod Cyngor Sir Ddinbych ("y Cyngor") yn ymarfer ei bwerau o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ac ar ôl ymgynghori gyda Phrif Swyddog yr Heddlu, yn cynnig gwneud y Gorchymyn a enwir uchod, a bydd ei effaith fel y disgrifir yn yr atodlen isod.

Mae manylion llawn y cynnig hwn wedi'u nodi yn y Gorchymyn drafft, sydd, ynghyd â'r cynlluniau sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn a datganiad o resymau dros gynnig gwneud y Gorchymyn, i'w gweld ar-lein ar wefan y cyngor.

Gellir archwilio copi o'r Gorchymyn drafft a'r cynllun sydd ynddo hefyd yn Llyfrgell Rhuthun, Stryd y Record, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 1DS yn ystod oriau agor arferol.

Gall unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig wneud hynny drwy gyflwyno ymatebion i holiadur ynglŷn â'r cynigion ar wefan Cyngor Sir Ddinbych dan Borth Sgwrs y Sir (sgwrsysir.sirddinbych.gov.uk) neu drwy anfon datganiad ysgrifenedig yn gwrthwynebu, yn nodi'r seiliau i'r gwrthwynebiad, at Bennaeth y Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol Pobl, Cyngor Sir Ddinbych, Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ, erbyn 30 Tachwedd 2025 fan bellaf. Dylid nodi y gallai unrhyw sylwadau y mae'r Cyngor yn eu derbyn fod ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio.

## Atodlen

**Mae'r gwaith a fwriedir yn golygu bod y Gorchymyn Amrywio hwn yn effeithio ar y ffordd yn:**

Ffordd Wynnstay

Stryd y Farchnad

Stryd y Ffynnon

Stryd y Castell

Sgwâr Sant Pedr

Stryd Clwyd Uchaf

Stryd Clwyd

Stryd y Prior

**Cyflwynir: -**

Lleoedd Llwytho a rennir ar gyfer Bysiau a Cherbydau Nwyddau

Lleoedd gyda chyfyngiad ar aros

Dim Aros ar Unrhyw Adeg

Dim Aros Cyfyngedig o ran Amser

Dyddiedig 3 Tachwedd 2025

Catrin Roberts, Pennaeth Gwasanaeth, Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol – Pobl, Cyngor Sir Ddinbych, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, Sir Ddinbych